

DYDD LLUN, 2 HYDREF 2023

AT: HOLL AELODAU Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD **AML-LEOLIAD O'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG** A GYNHELIR YN Y SIAMBR - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB AR DDYDD LLUN, 9FED HYDREF, 2023 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

Swyddog Democrataidd:	Julie Owens
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224088
E-Bost:	juowens@sirgar.gov.uk
Cyfarfod aml-leoliad yw hwn. Gall aelodau'r pwyllgor fynychu'n bersonol yn y lleoliad a nodir uchod neu o bell drwy'r ddolen Zoom a ddarperir ar wahân.	
Gellir gwyllo'r cyfarfod ar wefan y cyngor drwy'r ddolen canlynol:- https://carmarthenshire.public-i.tv/core/portal/home	

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

GRŴP PLAID CYMRU -

Cyng. Carys Jones
Cyng. Liam Bowen
Cyng. Kim Broom
Cyng. Peter Hughes Griffiths
Cyng. Betsan Jones
Cyng. Hefin Jones
Cyng. Jean Lewis

GRŴP LLAFUR -

Cyng. Dot Jones
Cyng. Edward Skinner
Cyng. Michael Thomas

GRŴP ANNIBYNNOL -

Cyng. Sue Allen

HEB GYSYLLTIAD

Cyng. Sean Rees

Vera Kenny

Roman Catholic Church
Representative

Rev. Delyth Richards

Church in Wales Representative

RHIANT LYWODRAETHWYR SYDD Â PHLEIDLAIS -

Anthony Enoch

Parent Governor Representative -
Area 2 – Carmarthen

2 Lle Gwag

Ardal 1 ac Ardal 3 (Dinefwr a Lanelli)

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.
3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)
4. AROLYGIAD ESTYN O WASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL SIR GAERFYRDDIN 5 - 28
5. ADOLYGIAD DERBYNIADAU YSGOLION CYNRADD (CODI'N 4 OED) 29 - 46
6. CYLLIDEBAU YSGOLION 47 - 52
7. GRWPIAU FFOCWS STRATEGOL 53 - 66
8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU 67 - 70
9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL 71 - 108
10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 MEHEFIN 2023 109 - 116

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Y Pwnc: Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg
Llywodraeth Leol Sir Gaerfyrddin**

**Y Pwrpas: Galluogi'r Pwyllgor Craffu i ystyried yr adroddiad a'r
meysydd i'w datblygu.**

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu:-

- Adolygu'r sefyllfa bresennol.
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i fynd i'r afael â'r argymhellion a'r mân feysydd i'w gwella.

Y Rhesymau:

Llunio safbwyntiau i'w cyflwyno i'r Cabinet / Cyngor i'w hystyried.

Yr Aelod O'r Cabinet Sy'n Gyfrifol Am Y Portffolio:-

Cyng. Glynog Davies, Addysg a'r Iaith Gymraeg

Mae'n adroddiad arbennig. Hoffwn ddiolch i'r holl swyddogion am eu gwaith cadarn sydd wedi arwain at hyn. Fy niolch personol i'r Cyfarwyddwr am ei arweiniad clir.

<p>Y Gyfarwyddiaeth: Addysg a Gwasanaethau Plant</p> <p>Enw'r Cyfarwyddwr: Gareth Morgans</p> <p>Awdur yr Adroddiad: ESTYN</p>	<p>Swyddi:</p> <p>Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant</p>	<p>Cyfeiriadau E-bost:</p> <p>EDGMorgans@sirgar.gov.uk</p>
---	--	---

EXECUTIVE SUMMARY

Estyn Inspection of Carmarthenshire's Local Government Education Services

Background to Local Government Education Services Inspection (LGES)

Inspections of LGES are carried out under Section 38 of the Education Act 1997 which provides that His Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales (HMCI) '**may, and, if requested to do so by the Secretary of State, shall, arrange for any local authority to be inspected**'.

Such an inspection '*shall consist of a review of the way in which the authority are performing any function which relates to the provision of education for (a) persons of compulsory school age (whether at school or otherwise) or (b) for persons of any age above or below that age who are registered as pupils at schools maintained by the authority.*'

Estyn's inspection of local authorities is informed by the Guidance handbook for the inspection of LGES 2022 (gov.wales). The handbook sets out the way in which Estyn conducts inspections of local government education services (LGES), which has changed significantly since our last core inspection in 2012.

Between the 10th and 14th of July 2023, Estyn inspected Carmarthenshire Council under its Local Government Education Services (LGES) framework.

The Local Government Education Services Inspection Framework

<p>Inspection area 1– Outcomes</p>	<p>1.1 Standards and progress overall 1.2 Standards and progress of specific groups 1.3 Well-being and attitudes to learning.</p>
<p>Inspection area 2– Education Services</p>	<p>2.1 Support for school improvement 2.2 Support for vulnerable learners 2.3 Other education support services</p>
<p>Inspection area 3- Leadership and management</p>	<p>3.1 Quality and effectiveness of leaders and managers 3.2 Self-evaluation and improvement planning 3.3 Professional learning 3.4 Safeguarding arrangements 3.5 Use of resources</p>

Inspectors evaluate and report on **all aspects of inspection areas 1 and 3** of the framework. **Inspection area 2** of the framework sets out the scope of education services that could be

inspected during an inspection. As part of each inspection process, Estyn will form a **set of local inspection questions about education services**. Inspectors will evaluate services covered by these questions and report on each question separately within the report.

Under Inspection area 2, four local inspection questions were identified for Carmarthenshire, which were:

1. *How effective are school improvement processes in improving the quality of teaching and school leadership?*
2. *How well do the authority's arrangements for school modernisation and reorganisation ensure appropriate education provision for all children and young people, including pre-school and post-16 education?*
3. *How well do the local authority's education services promote positive behaviour and good attendance in its schools?*
4. *How successful is the local authority in ensuring that pupils' additional learning needs are identified early, and that suitable provision is in place to meet those needs.*

A preliminary visit took place on the 22nd and 23rd of June 2023, to conduct interviews with a range of stakeholders including headteacher representatives for primary, secondary and special schools; representatives of Chairs of Governors across primary, secondary and special schools; the regional education partnership, Partneriaeth; trade union representatives; diocese; the local health board, parents and officers from other Directorates of the Local Authority.

The core inspection consisted of data analysis from learner outcomes, school inspections and stakeholder questionnaires; scrutiny of evidence provided by the local authority including our self-evaluation report; and interviews with a range of Members and officers. Audit Wales inspected the Local Authority's use of resources under the inspection area of Leadership and Management.

During all core inspections, Estyn consider whether local government education services are **causing significant concern** and require follow-up activity. **Estyn judged that education services in Carmarthenshire do not fall into this category.**

The report was published on 27th of September 2023 and identified many strengths and notable features.

Three recommendations were made-

- R1 Improve pupils' attendance in the authority's schools.
- R2 Strengthen school improvement processes, particularly for secondary schools.
- R3 Refine approaches to self-evaluation and improvement planning.

Work had already begun to address aspects of the recommendation prior to the inspection as they were already identified via self-evaluation and improvement planning processes.

The outcome of the inspection is detailed within the Estyn Inspection report appended to this document. It is Estyn's expectation that the inspection report is scrutinised in full by the Scrutiny Committee, so that the necessary support and challenge can be provided about the Directorate's plans for improvement.

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: 

Director of Education and Children's Services

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
NONE	YES	YES	NONE	YES	YES	YES

Legal

Inspections of LGES are carried out under Section 38 of the Education Act 1997 which provides that His Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales (HMCI) '**may, and, if requested to do so by the Secretary of State, shall, arrange for any local authority to be inspected**'. The Local Authority must respond to the report and address the recommendations.

Finance

Addressing some of the recommendations and minor area for improvement may require additional resource e.g. Recommendation 1: to improve school attendance. Resource requirements will be reviewed by officer as part of our Action Plan and will be considered as part of the budget discussions for 2024/25 budget setting.

Risk Management Issues

With the current financial forecasts for 2024/25 and subsequent years there is a risk that reduced resources could hamper our ability to address the recommendations and sustain the high quality and sustainable service we have developed.

Staffing Implications

Implementing the recommendations may require us to expand Local Authority Teams in order to secure the required improvements.

Physical Assets

One of the local questions was in relation to- **How well do the authority's school modernisation and re-organisation arrangements ensure appropriate education provision for all children and young people, including pre-school and post-16 education?** Addressing current challenges within the sector will require significant capital investment to further develop and improve school assets.

CABINET MEMBER PORTFOLIO HOLDER(S) AWARE/CONSULTED YES	Cllr Glynog Davies is aware of Estyn's report and recommendations.	
Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information List of Background Papers used in the preparation of this report: THESE ARE DETAILED BELOW		
Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
A report on education services in Carmarthenshire County Council- Estyn	ESTYN REPORT	Adroddiad arolygiad - Cyngor Sir Gaerfyrddin 2023 (llyw.cymru) Inspection report - Carmarthenshire County Council 2023 (gov.wales)
Guidance handbook for the inspection of LGES 2022 (gov.wales)	ESTYN GUIDANCE	https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-08/Guidance%20handbook%20for%20the%20inspection%20of%20LGES%202022.pdf



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales



**Adroddiad ar wasanaethau addysg yng
Nghyngor Sir Caerfyrddin**

**Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn â Chyngor Sir Caerfyrddin

Mae gan Gyngor Sir Gâr gyfanswm poblogaeth o tua 187,900. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal un ysgol feithrin, 94 o ysgolion cynradd, 12 ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig. Mae'r awdurdod hefyd yn cynnal tair uned cyfeirio disgyblion. Dechreuodd y Prif Weithredwr ar ei swydd ym mis Mehefin 2019 a phenodwyd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant yn Rhagfyr 2016. Mae Arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei rôl ers Mai 2022 a dechreuodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Plant ym mis Mai 2017.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol yn 2012. Mae Cyngor Sir Gâr yn un o dri awdurdod lleol a ffurfiodd bartneriaeth newydd, sef 'Partneriaeth', sy'n cefnogi ysgolion gyda'r cwricwlwm er enghraifft, wedi i gonsortwm ERW ddod i ben.

Yn 2022-2023, mae cyllideb addysg net yr awdurdod lleol tua £184,708,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2022-23 yw £4,958, sy'n is na chyfartaledd Cymru o £5,032.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Dyma ychydig o wybodaeth ddefnyddiol am blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin:

- Mae 23.6% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru, sef 23.3%.
- Mae 39.5% o ddisgyblion 5 oed neu hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 16%.
- Mae 7.5% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 12.6%.
- Mae cyfanswm o 165 o blant yng ngofal yr awdurdod lleol.
- Mae gan 24.9% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae gan 2.4% o ddisgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol.

Crynodeb

Mae gwasanaethau addysg Sir Gâr yn cael eu harwain yn gadarn gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig sy'n rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysg yn yr awdurdod. Cefnogir hyn gyda diwylliant agored a chadarnhaol ynghyd â phrosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella sydd, at ei gilydd, yn drylwyr. Drwy hyn, mae arweinwyr yn cael effaith gadarn ar wella darpariaeth addysg a deilliannau dysgwyr yn y rhan fwyaf o'u meysydd cyfrifoldeb, ac yn eu galluogi i osod cyfeiriad clir ar gyfer gwelliannau pellach i'r dyfodol. Mewn ambell le, nid yw gweithdrefnau monitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r mân ddiffygion, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Mae gan yr awdurdod berthnasoedd gweithio cynhyrchiol gydag ysgolion a darparwyr eraill. Cyfranna hyn yn fuddiol tuag at sicrhau bod mentrau newydd,

newidiadau yn y ddarpariaeth a rhannu syniadau yn digwydd ar y cyd, mewn partneriaeth. Mae'r gwaith diweddar i gryfhau'r cymorth o ran cefnogi ymddygiad mewn ysgolion, darparu adnodd ADY ychwanegol a sefydlu adnoddau trochi ar gyfer yr iaith Gymraeg yn enghreifftiau da o sut mae'r awdurdod yn gweithredu'n strategol i wella'r ddarpariaeth.

Mae prosesau gwella ysgolion gwerthfawr a bwriadus yn yr awdurdod. Mae hyn yn seiliedig ar berthynas weithio glòs rhwng yr awdurdod a'i hysgolion, sydd yn cael effaith gadarnhaol o ran cynnig ymyrraeth addas i ysgolion. Er hyn, mae effaith y gefnogaeth i ysgolion uwchradd yn amrywio ac nid oes ffocws digon cadarn ar sicrhau ansawdd y gefnogaeth a'r her a ddarperir i ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn lleihau amrywiaeth ym mhrosesau gwella ysgolion.

At ei gilydd, mae trefniadau moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion yr awdurdod yn gadarn. Eifen gref o'r gwaith hwn yw'r cydweithio agos ag ystod dda o bartneriaid allanol, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr, er enghraifft wrth sefydlu'r 'Pentref Galwedigaethol' yn Llanelli. Yn ogystal, mae trefniadau bwriadus ar waith er mwyn sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cael eu nodi'n gynnar a bod darpariaeth addas ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny, gan amlaf.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod wedi cymryd camau cyflym i fireinio'r ddarpariaeth i gefnogi a gwella ymddygiad o fewn ysgolion. Mae cyfeiriad strategol cryf i'r gwaith hwn, gyda'r newidiadau diweddar hyn yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad mewn ysgolion. Mae'r awdurdod yn dangos ymrwymiad clir i wella presenoldeb, ac mae cynnydd cryf wedi bod mewn lleiafrif o ysgolion. Er hyn, mae cyfraddau presenoldeb yr awdurdod yn parhau'n isel ac mae gwelliannau ar draws ysgolion wedi bod yn amrywiol.

Dros amser, mae deilliannau arolygiadau o ysgolion Sir Gâr yn amrywio, er yn fwy diweddar, ers 2022, mae cyfradd y darparwyr sydd angen gweithgarwch dilynol gan Estyn wedi lleihau. Yn ogystal, gofynnwyd i ddwy ysgol uwchradd a phum ysgol gynradd gyflwyno astudiaeth achos o arfer dda. At ei gilydd, mae arfarniadau ar gyfer lles wedi bod yn gyson dda yn y rhan fwyaf o arolygiadau, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Argymhellion

- A1 Gwella presenoldeb disgyblion o fewn ysgolion yr awdurdod
- A2 Cryfhau prosesau gwella ysgolion, yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd
- A3 Mireinio ymagweddau at hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Beth sy'n digwydd nesaf

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddarau ei gynlluniau er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd gan y broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddarau ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Prif ganfyddiadau

Deilliannau

Ni allwn ddarparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, a achosodd atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data am ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod oherwydd achosodd y pandemig newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau. Effeithiodd hyn hefyd ar y rhan fwyaf o'r data arall rydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16, ond rydym wedi aildechrau derbyn y math hwn o ddata yn ddiweddar.

Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar ble mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

At ei gilydd a thros amser, mae deilliannau arolygiadau o ysgolion Sir Gâr yn amrywio. Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom 44 o leoliadau. Mae hyn yn cynnwys 38 ysgol gynradd, pedair ysgol uwchradd, un ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion. O'r ysgolion cynradd, barnwyd bod angen dilyniant mewn 16 ohonynt, gan gynnwys gweithgarwch dilynol statudol mewn tair o'r ysgolion hyn. Barnwyd bod angen dilyniant gan Estyn mewn un ysgol uwchradd ac ar gyfer yr ysgol arbennig. Roedd angen gweithgarwch dilynol statudol ar yr uned cyfeirio disgyblion, hefyd. Bellach, yn dilyn gwelliannau, nid yw'r un o'r ddarparwyr hyn angen gweithgarwch dilynol.

Ers Chwefror 2022, pan aildechreuom arolygu ysgolion yn dilyn y pandemig, mae 38 o leoliadau wedi cael eu harolygu. Mae hyn yn cynnwys 27 ysgol gynradd, pedair ysgol uwchradd a 7 meithrinfa nas cynhelir. Yn gyffredinol, mae'r deilliannau'n gadarnhaol a gofynnwyd i ddwy ysgol uwchradd a phum ysgol gynradd gyflwyno astudiaeth achos o arfer dda. Er hynny, barnwyd bod angen gweithgarwch dilynol statudol ar un ysgol uwchradd a dwy ysgol gynradd. Barnwyd yr angen am lefel o ddilyniant ar un feithrinfa nas cynhelir. Barnwyd bod angen adolygu gan Estyn ar dair ysgol gynradd.

Rhwng 2017 a 2019, roedd perfformiad y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd Sir Gâr yn debyg i neu'n well na'r disgwyl yng nghyfnod allweddol 4. Roedd perfformiad ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn is na'r disgwyl. Perfformiodd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn debyg i gyfartaledd Cymru.

Mae sicrhau lefelau uchel o les disgyblion a staff yn flaenoriaeth i'r awdurdod. Roedd y farn ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well mewn llawer o arolygiadau Sir Gâr yn ystod y cylch arolygu o Fedi 2017 hyd Fawrth 2020. O'r 44 ysgol a arolygwyd yn y cyfnod hwn, cafwyd bod lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well mewn 35 ohonynt, gyda'r farn yn ddigonol yn y gweddill. Yn yr arolygiadau sydd wedi eu cynnal ers i Estyn aildechrau arolygu ysgolion yn 2022, mae arfarniadau ar gyfer lles wedi bod yn gyson dda. Yn yr arolygiadau hyn, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar lein. Roedd ymddygiad disgyblion yn nodwedd gyffredinol gref yn yr ysgolion hyn, a'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Adlewyrchir hyn hefyd yn y data gwaharddiadau disgyblion. Dros y tair blynedd hyd at 2021, roedd y raddfa gwaharddiadau pum niwrnod neu lai yn gyson is na'r raddfa genedlaethol, yn ogystal â'r raddfa o waharddiadau dros bum niwrnod. Dros yr un cyfnod, roedd y raddfa gwaharddiadau parhaol yn sylweddol is na'r raddfa genedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb yr awdurdod, gan gynnwys y cyfraddau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae ysgolion, gwasanaethau ieuencid, staff yr awdurdod ac asiantaethau allanol yn gweithio'n agos er mwyn cynnig cefnogaeth gref i ddisgyblion bregus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at leihau niferoedd y disgyblion nad ydynt yn derbyn eu haddysg mewn ysgolion prif-lif, a bod bron bob disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth wedi iddynt adael yr ysgol.

Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau corfforaethol. Er enghraifft, yn ddiweddar, fe wnaeth fforwm o ddisgyblion uwchradd adolygu cynlluniau toriadau yng ngwariant y Cyngor. Mae disgyblion hefyd wedi bod yn ddylanwadol wrth i'r awdurdod adolygu ei ddarpariaeth ôl-16. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth a dylanwadu ar benderfyniadau o fewn ysgolion yr awdurdod yn gryfder.

Gwasanaethau addysg

Pa mor effeithiol yw prosesau gwella ysgolion o ran gwella ansawdd yr addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion?

Mae gan awdurdod lleol Sir Gâr berthynas waith glòs â'i ysgolion. Mae ymgynghorwyr cefnogi addysg (YCA) y gwasanaeth gwella ysgolion yn meithrin perthynas gadarnhaol a chefnogol gydag ysgolion yr awdurdod. Yn dilyn pandemig COVID-19 ac yn ystod y cyfnod adfer dilynol, bu i'r awdurdod adnabod yr angen i adnewyddu ei ddealltwriaeth o gyd-destun ysgolion unigol a helpu ysgolion i ailsefydlu eu prosesau sicrhau ansawdd. O ganlyniad, mae'n cynnal ymweliadau buddiol i gefnogi ysgolion i gasglu tystiolaeth o ddysgu ac addysgu fel rhan o'i rhaglen gwella ysgolion. Mae gweithgareddau gwerthfawr fel teithiau dysgu, craffu ar waith a chaffael llais disgyblion yn rhan o'r prosesau hyn. Mae'r wybodaeth yn galluogi ymgynghorwyr i adnabod materion allweddol a chynnig ymyrraeth addas, yn unol â'r angen.

Yn gyffredinol, mae'r awdurdod yn gwahaniaethu'r cymorth a chefnogaeth a gynigir i ysgolion yn briodol, gan gynnwys ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae swyddogion wedi adnabod bod ychydig o ysgolion cynradd angen cefnogaeth fwy dwys. Defnyddia'r awdurdod brosesau a strwythurau priodol i drafod a brocera cefnogaeth fuddiol i'r ysgolion hyn. Mae cyfarfodydd rheoli achos yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn trafod y materion sy'n codi pryderon mewn ysgolion. Pan fydd yn briodol ac fel rhan o'r broses hon, mae'r awdurdod yn defnyddio dulliau fel hysbysiadau cyn-rhybudd i fynd i'r afael â materion brys mewn ysgolion. Ar hyn o bryd, mae angen gweithgarwch dilynol statudol ar ôl arolygiad gan Estyn ar un ysgol uwchradd a dwy ysgol gynradd.

Mae gan staff ysgolion fynediad at ystod eang o ddysgu proffesiynol perthnasol trwy gynnig yr awdurdod lleol a gwasanaeth 'Partneriaeth'. Mae 'Partneriaeth' yn darparu rhaglenni arweinyddiaeth genedlaethol, cefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso a dysgu proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Yn ddiweddar, addasodd y gwasanaeth gwella ysgolion ei gynnig dysgu proffesiynol i ymateb i adborth ysgolion a thrafodaeth y pwyllgor craffu am anghenion dysgu proffesiynol o fewn ysgolion yr awdurdod. Arweiniodd hyn at gynnig dysgu proffesiynol diwygiedig i ymateb yn fwy grymus i anghenion ymarferol ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer, a gweithredu, Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Tîm Gwella Ysgolion a'r Adran Addysg a Phlant yn diwallu anghenion dysgu proffesiynol yr ysgolion cynradd yn dda. Mae 'Partneriaeth' yn cynnig cefnogaeth fuddiol i ysgolion uwchradd trwy gyfleoedd rhwydweithio, er enghraifft drwy'r rhwydweithiau pynciol i arweinwyr canol ble trafodir cymwysterau ac anghenion pynciau penodol.

Mae'r awdurdod yn darparu cyfleoedd buddiol i ysgolion rannu arferion effeithiol drwy rwydweithiau, digwyddiadau rhannu arferion a llwyfan ddigidol werthfawr. Yn dilyn y pandemig, mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu ailsefydlu cyfleoedd i ysgolion gydweithio trwy waith cymheiriad. Mae'r cydweithio hwn o fewn clystyrau o ysgolion yn datblygu'n briodol.

Mae'r awdurdod yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn ysgolion cynradd yn briodol. Yn gyffredinol, maent yn cynnig cefnogaeth dda i'w helpu i gynllunio ar gyfer gwelliant gan gynnwys cefnogaeth wedi'i theilwra. Mae cydweithio gwerthfawr a defnydd buddiol o arbenigeddau o fewn y tîm YCA yn helpu'r gwasanaeth i ymateb yn adeiladol i anghenion yr ysgolion cynradd. Yn ogystal, mae ymgynghorwyr cefnogi addysg yn ymgysylltu'n addas ag arweinwyr ysgolion uwchradd fel rhan o'u rôl gwella ysgolion. Cesglir gwybodaeth am flaenoriaethau'r cynlluniau datblygu ysgol, trefniadau a phrosesau ysgolion. Fodd bynnag, wrth ystyried yr ysgolion uwchradd, nid yw swyddogion yn gwerthuso nac yn herio'r wybodaeth am gryfderau a meysydd i'w datblygu yn ddigon miniog. Yn aml, nid ydynt yn ystyried sut mae'r cynlluniau gwella a'r cymorth maent wedi'u cyd-lunio â'r ysgolion hyn yn cael effaith ar wella'r addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth yn ddigon penodol. Golyga hyn nad oes gan yr awdurdod adnabyddiaeth gystal o'i ysgolion uwchradd. Drwyddi draw, nid oes ffocws digon cadarn ar sicrhau ansawdd y gefnogaeth a'r her a ddarperir i ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn lleihau amrywiaeth ym mhrosesau gwella ysgolion y gwasanaeth.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod werthfawr o gymorth a chefnogaeth i lywodraethwyr gan gynnwys rhaglen dysgu proffesiynol addas a chefnogaeth drwy ddarparu adnoddau defnyddiol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i lywodraethwyr ddatblygu

eu dealltwriaeth o brosesau hunan werthuso trwy gysgodi ymweliadau ymgynghorwyr cefnogi addysg.

Pa mor dda mae trefniadau moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion yr awdurdod yn sicrhau darpariaeth addysg briodol i bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys addysg cyn-ysgol ac ôl 16?

Mae gan yr awdurdod strategaeth glir ar gyfer moderneiddio ac ad-drefnu'i ysgolion sy'n seiliedig ar egwyddorion ac amcanion cadarn. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu dyhead yr awdurdod i greu ystod o ysgolion o ansawdd uchel, sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr presennol ac yn y dyfodol. Mae cyswllt priodol rhwng amcanion y strategaeth moderneiddio ysgolion, amcanion llesiant y cyngor a chynllun deng mlynedd y gwasanaeth addysg. Mae hyn yn cynnwys y weledigaeth i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd yn ogystal â gwneud eu cymunedau yn rhai sy'n ddiogel ac yn ffyniannus. Mae gan yr awdurdod gynlluniau penodol ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol i leihau effaith tlogi ar gyflawniad disgyblion a phobl ifanc. Er enghraifft, darparwyd cyfleusterau fel rhan o gynllun Ysgol Rhys Pritchard, Llanymddyfri er mwyn hyrwyddo ymgysylltiad da â disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned.

Mae ymrwymiad uwch arweinwyr yr awdurdod, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Addysg a Gwasanaethau Plant i wireddu'r strategaeth, yn nodwedd gadarnhaol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r tîm moderneiddio ysgolion a rhanddeiliaid eraill i adolygu'r strategaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cydblethu ac yn ymateb i ofynion cyfredol yr awdurdod. Er enghraifft, bu iddynt addasu'r strategaeth i gefnogi Cwricwlwm i Gymru, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-32 ynghyd ag ymateb i heriau fel recriwtio arweinwyr ysgol mewn ardaloedd gwledig y sir.

Mae pennaeth y tîm moderneiddio ysgolion, ynghyd â'i gydweithwyr, yn darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth fuddiol iawn i swyddogion ac aelodau etholedig ar faterion sy'n ymwneud â'r strategaeth. Maent yn cynnal ystod addas o weithdai i ddiweddarau'r aelodau etholedig ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r strategaeth moderneiddio a'u hysbysu am heriau'r presennol a'r dyfodol. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer gwneud penderfyniadau pwysig yn gysylltiedig â'r strategaeth. Mae'r tîm yn gwneud defnydd da o ffynonellau gwybodaeth a data er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion ac i flaengynllunio yn ôl yr angen. Er enghraifft, defnyddiant ganfyddiadau arolygon cyflwr a chynhwysedd adeiladau, rhagolygon poblogaeth ysgolion a chyfraddau genedigaeth ardaloedd wrth lunio cynlluniau. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ystyried y galw am ddarpariaeth i blant tair oed a gofal cyn ac ar ôl ysgol wrth gynllunio adeiladau newydd.

Elfen gref o waith y tîm moderneiddio yw eu cydweithio agos ag ystod dda o bartneriaid allanol, arweinwyr ysgolion yn ogystal â swyddogion ar draws yr awdurdod. Mae'r cydweithio rhwng y tîm â'r rhanddeiliaid yn eu galluogi i ymateb yn brydlon i geisiadau a blaenoriaethau newydd. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi sefydlu canolfannau dros dro ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn diwallu'r galw cynyddol am wasanaethau arbenigol mewn ysgolion cynradd. Maent hefyd wedi cydweithio'n llwyddiannus ag arweinwyr ysgolion uwchradd i wella'r arlwy o gyrsiau sydd ar gael i'w disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r 'Pentref Galwedigaethol' a sefydlwyd yn Llanelli.

Cameo: Pentref Galwedigaethol

Sefydlwyd y 'Pentref Galwedigaethol' yn Llanelli i gynyddu nifer ac ystod y cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion yr ardal, gan gynnwys canolfan sgiliau adeiladu pwrpasol. Mae'r gynghrair o ysgolion uwchradd Llanelli yn cynnwys y pedwar lleoliad dysgu 11-16 presennol, sef Bryngwyn, Coedcae, Glan y Môr a Sant Ioan Llwyd, y lleoliad dysgu dwyieithog 11-19 yn y Strade, ac ysgol arbennig Heol Goffa a darpariaeth ôl-16 yng Ngholeg Sir Gâr. Datblygwyd cysyniad y 'Pentref Galwedigaethol' ym mhob un o'r sefydliadau dysgu i alluogi disgyblion i ddatblygu cyfleusterau sgiliau galwedigaethol arbenigol ymhellach. Mae'r datblygiad yn darparu'r cyfleusterau canlynol yn benodol:

- Bryngwyn - Canolfan Addysg Sgiliau Adeiladu
- Sant Ioan Llwyd - cyfleuster hyfforddiant arlwyio arbenigol a bwyty hyfforddi bach
- Y Strade - cyfleuster technoleg cerddoriaeth
- Coedcae - cyfleuster celfyddydau perfformio a'r cyfryngau
- Glan y Môr - cyfleuster gofalu a gofal plant

Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio grantiau cyfalaf i fuddsoddi'n sylweddol mewn ystod o brosiectau cyfalaf ers iddynt ddechrau ar y strategaeth tuag ugain mlynedd yn ôl. Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer yr ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion wedi lleihau o 150 i 111. Mae hyn yn cyfrannu tuag at un o brif amcanion y strategaeth moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion, sef datblygu rhwydwaith ysgolion sy'n effeithlon ac yn gynaliadwy. Mae'r strategaeth hefyd yn rhoi pwyslais cadarn ar wella'r ddarpariaeth ôl-16 trwy fuddsoddi mewn estyniadau neu ysgolion newydd. Er enghraifft, ymgwymerwyd â phrosiect adrefnu ar raddfa fawr o ran addysg uwchradd ac ôl-16 yn ardaloedd Dinefwr, Gwendraeth a Dyffryn Amman, trwy aildrefnu lleoliadau dysgu pum ysgol uwchradd yn dair canolfan ddysgu ddwyieithog 11-19.

Er bod cyflwyno'r rhaglen hon wedi'i ohirio rhywfaint oherwydd y pandemig COVID-19, mae'r tîm moderneiddio ysgolion wedi sicrhau bod ymgynghoriadau a phrosesau penderfynu allweddol wedi parhau, yn ogystal â'r adeiladu. Yn gyffredinol, mae llawer o brosiectau'r awdurdod dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi canolbwyntio'n briodol ar adnewyddu ei gyflenwad o ysgolion trwy godi adeiladau newydd, gydag ychydig iawn o gynigion i ystyried ad-drefnu addysg fesul ardal. Fodd bynnag, mae oedi o ran gwneud penderfyniadau, gan gynnwys yn dilyn ymgynghoriadau ffurfiol, wedi golygu nad yw'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn llawn â'u cynlluniau i ad-drefnu a moderneiddio addysg.

Mae'r tîm moderneiddio ysgolion yn flaengar wrth ddechrau ymateb i flaenoriaethau uchelgeisiol y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-32. Mae'r cydweithio buddiol rhwng aelodau'r grŵp ffocws strategol Cymunedau Cynaliadwy a grŵp ffocws strategol y Gymraeg yn sicrhau bod yr awdurdod yn adnabod cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar draws eu hysgolion. Er enghraifft, maent wedi adeiladu canolfan drochi o'r newydd yn ardal Cwm Gwendraeth i gefnogi disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg, yn ogystal â llunio ymgynghoriadau statudol i ymateb i geisiadau ysgolion sydd am symud ar hyd y continwmm iaith trwy newid cyfrwng iaith y ddarpariaeth. Un o nodweddion cryfaf y strategaeth ad-drefnu ysgolion yw ei gwaith i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd trefol y sir. Enghraifft nodedig o hyn yw sefydlu'r ddarpariaeth dwy ffrwd yn Ysgol Pen Rhos,

Llanelli er mwyn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion oed cynradd gael mynediad i addysg Gymraeg yn eu hardal leol.

Pa mor dda mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb da yn ei hysgolion?

Mae gan yr awdurdod weledigaeth glir ar gyfer darparu cefnogaeth ymddygiad i ysgolion, disgyblion a'u teuluoedd. Mae hwn wedi ei seilio ar sicrhau tegwch i ddisgyblion, adeiladu perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion a deall y rhesymau tu ôl i unrhyw ymddygiad heriol. Mae cyfeiriad strategol cryf i'r gwaith hwn. Defnyddir cynllun 'pedwar cyfnod' clir sydd yn cynnwys strwythurau pendant er mwyn graddoli'r ymateb i gefnogi ymddygiad disgyblion. Er hyn, nid yw pob ysgol yn gweithredu'r weledigaeth yn unol â disgwyliau'r awdurdod.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod wedi cymryd camau cyflym i fireinio'r ddarpariaeth i gefnogi a gwella ymddygiad o fewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys penodi swyddog lles ac ymddygiad ar gyfer pob ysgol uwchradd a sicrhau bod athro a chymhorthydd cyswllt arbenigol i bob clwstwr o ysgolion. Mae'r staff hyn yn cynnig hyfforddiant i staff ysgolion a chefnogaeth amserol pan mae pryderon yn codi. Yn gyffredinol, mae'r camau hyn i wella cymorth ymddygiad wedi cael derbyniad da gan arweinwyr ysgolion, ac wedi arwain at wella gallu'r ysgolion i ymateb i rai o'r heriau maent wedi wynebu yn dilyn y pandemig.

Mae'r awdurdod yn gwerthuso effaith ei waith yn y maes hwn yn gyson ac yn mireinio'r ddarpariaeth yn ôl y gofyn. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd strategol amlasiantaethol rheolaidd lle mae cyfle i drafod unrhyw themâu ymddygiadol o fewn ysgolion neu unigolion sy'n peri pryder, a phenderfynu ar yr ymyrraeth fwyaf addas i'w defnyddio ym mhob achos.

Mae'r awdurdod yn sicrhau'r defnydd priodol o'u hadnoddau er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol dwys. Er enghraifft, maent wedi addasu'r ddarpariaeth er mwyn galluogi disgyblion i fynychu canolfannau arbenigol ar gyfer hybu eu medrau emosiynol ac ymddygiadol yn rhan amser, gan barhau i fynychu'r ysgol gartref am gyfnodau. Mae'r trefniant hwn hefyd yn hwyluso'r gallu i ddisgyblion ddychwelyd yn ôl i'w hysgol prif lif yn llwyddiannus, maes o law. Bellach, mae chwarter y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sydd yn mynychu'r canolfannau arbenigol yn gwneud hynny o dan y trefniant hwn.

Mae gwella presenoldeb yn un o flaenoriaethau'r Cabinet newydd. Er bod yr awdurdod wedi nodi presenoldeb fel maes pwysig sydd angen sylw, mae gwelliannau ar draws ysgolion wedi bod yn amrywiol. Mae cynnydd cryf wedi bod mewn lleiafrif o ysgolion, er bod cyfraddau presenoldeb ysgolion yr awdurdod yn gyffredinol yn parhau i fod yn ystyfnig isel wedi'r pandemig.

Mae gan yr awdurdod weithdrefn glir i gefnogi arweinwyr ysgolion i ddadansoddi cyfraddau presenoldeb. Mae hyn yn eu helpu i nodi tueddiadau a meysydd i'w gwella yn eu hysgolion. Maent hefyd wedi datblygu pecyn cymorth hunanwerthuso presenoldeb ysgol i gefnogi ysgolion i fyfyrion ar eu trefniadau.

Mae ymgynghorwyr cefnogi addysg yn trafod y pryderon ynglŷn â phresenoldeb yn ystod eu cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch arweinwyr ysgolion. Fodd bynnag, nid

yw'r camau i fynd i'r afael â'r materion bob amser yn ddigon manwl ac nid yw'r camau hyn bob tro'n cael eu monitro yn ddigon agos. Trafodir pryderon ynghylch presenoldeb a chyfraddau gwella ysgolion penodol mewn cyfarfodydd rheoli achosion. Mae'r awdurdod yn parhau i fireinio ei brosesau ac wedi cyflwyno trefniadau newydd yn ddiweddar i gryfhau ei waith yn y maes hwn. Er hyn, nid yw'r gwaith i wella presenoldeb bob amser yn gydlynus ac nid yw'r gweithdrefnau i gynyddu pryderon ynghylch presenoldeb bob amser yn glir. Er bod yr awdurdod wedi adnabod arferion da o fewn y maes hwn, hyd yma, nid ydynt wedi rhannu'r arferion hyn ar draws eu hysgolion yn ddigon effeithiol.

Pa mor llwyddiannus yw'r awdurdod lleol wrth sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cael eu nodi'n gynnar a bod darpariaeth addas ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny?

Mae gan swyddogion ddealltwriaeth gadarn o anghenion penodol plant a phobl ifanc Sir Gâr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Maent yn trefnu ystod o ddarpariaethau addas ar eu cyfer.

Mae swyddogion yn ymroddi'n llawn i egwyddorion y ddeddfwriaeth newydd, ac yn arwain yn gadarn ar y broses o drawsnewid y ddarpariaeth ar gyfer ADY. Mae ganddynt weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar ymarferion sy'n rhoi pwyslais priodol ar farnau'r unigolyn. Mae hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn rhoi ystyriaeth addas i ddyheadau ac anghenion y disgyblion.

Mae'r awdurdod yn rhoi pwyslais addas ar sicrhau bod darpariaeth ddysgu gyffredinol o safon ar gael i holl ddysgwyr yr awdurdod fel man cychwyn. Mae swyddogion yn cydweithio'n effeithiol â darparwyr er mwyn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae hyn yn cynnwys strategaeth effeithiol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, lle mae swyddogion yn cydweithio â darparwyr a gwasanaethau eraill fel ymwelwyr iechyd er mwyn ymateb i'r anghenion sy'n codi. Mae'r awdurdod yn darparu hyfforddiant priodol ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar er mwyn eu grymuso i gefnogi plant i ffynnu yn eu lleoliadau eu hunain.

Mae'r awdurdod yn darparu arlwy o hyfforddiant defnyddiol i staff ysgolion sy'n cyfrannu'n effeithiol at nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Mae hyn yn cynnwys cynigion hyfforddi o bell a sgrin-ddarllediadau ynglŷn ag ystod eang o faterion ADY. Ategir y rhain gan ddogfennau canllaw defnyddiol, er enghraifft i gynorthwyo cydlynwyr ADY ysgolion i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r awdurdod yn hybu cydweithio ymysg ysgolion i'w cynorthwyo i roi'r canllawiau ar waith. Yn ogystal, maent yn cynnal cynhadledd ar gyfer cydlynwyr ADY sy'n gyfle buddiol i rannu arferion effeithiol i gefnogi disgyblion. Maent hefyd yn darparu hyfforddiant defnyddiol i lywodraethwyr sy'n eu cynorthwyo i ddeall rôl yr ysgol o ran cefnogi disgyblion ag ADY.

Mae'r awdurdod yn sicrhau bod gan ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion y medrau angenrheidiol i adnabod anghenion, ac yn derbyn cyfeiriadau gan arbenigwyr fel staff y gwasanaeth iechyd. Yn ogystal, maent yn darparu llinell gyfeirio uniongyrchol ddefnyddiol trwy wefan yr awdurdod er mwyn galluogi rhieni i ddatgan pryder neu ofyn am gymorth. Mae paneli cynhwysiant yn ystyried cyfeiriadau ac adolygiadau yn briodol, a gwneir defnydd effeithiol o Swyddogion Cyswllt Teulu i rannu canfyddiadau â rhieni ac egluro beth sy'n digwydd nesaf. Mae'r awdurdod yn

cynnig darpariaeth ar gyfer dysgwyr, ynghyd â gwybodaeth ar gyfer eu teuluoedd, yn gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae swyddogion yn darparu cefnogaeth fuddiol i ymarferwyr er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion priodol broffil un tudalen addas sy'n nodi'r dulliau mwyaf effeithiol i'w cefnogi. Gwneir defnydd gynyddol effeithiol a chyson o blatfform digidol ar gyfer creu a chynnal cynlluniau datblygu unigol (CDU) ysgolion ac awdurdod.

Mae'r awdurdod yn cynnal amrywiaeth addas o ddarpariaethau arbenigol mewn unedau neu ysgolion arbennig sydd yn bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae hyn yn cynnwys dosbarthiadau arbennig sydd yn rhan annatod o ddarpariaeth gynhwysol ysgolion yr awdurdod. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n mynychu Canolfan Elfed yn aelodau annatod o deulu Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, ac yn rhannu profiadau ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y ddarpariaeth prif-lif, lle bo'n briodol. Gwneir trefniadau addas ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol y tu allan i'r awdurdod lleol. Mae'r awdurdod yn darparu cefnogaeth fuddiol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY sydd hefyd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, er enghraifft wrth fuddsoddi mewn cynorthwywyr dysgu sy'n siarad Wcraneg ac Arabeg. Mae'r awdurdod yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion sydd ag ADY barhau â'u haddysg ar ôl-16 oed mewn ysgolion, ac maent yn cydweithio'n gynyddol effeithiol â sefydliadau addysg bellach i ymateb i ddyheadau pobl ifanc.

Ar lefel strategol, mae uwch swyddogion yn cynllunio'r ddarpariaeth arbenigol yn briodol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darpariaeth ychwanegol i gefnogi dysgwyr ADY yn dilyn cynnydd yn niferoedd y disgyblion gydag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Dros gyfnod o ddeuddeg mis, maent wedi cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn lleoliadau arbenigol ar draws nifer o safleoedd. Fodd bynnag, dros amser, mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi gorfod aros am gyfnodau estynedig i gael mynediad llawn at y ddarpariaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt.

Mae gan yr awdurdod broses datrys anghydfod gadarn ar waith. Mae hyn yn cynnwys rolau addas i staff ysgolion, staff yr awdurdod fel Swyddogion Cyswllt Teulu a mewnbwn gan gyrff allanol priodol. O ganlyniad, ychydig iawn o apeliadau neu geisiadau i ailystyried sy'n codi o fewn y maes hwn.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir ynghyd â nodau ac amcanion strategol synhwyrol a phriodol ar gyfer ei gwasanaethau addysg. Mae gan yr awdurdod arweinwyr cymwys ac mae gweithdrefnau cadarn ar waith sydd yn eu galluogi i wireddu eu blaenoriaethau'n briodol. Mae gan Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ddisgwyliadau uchel o swyddogion, ysgolion, darparwyr eraill a phartneriaid. Maent yn ennyn ymddiriedaeth y rhanddeiliaid hyn, ac eraill, drwy gyfathrebu'n dryloyw, gan ddarparu ymdeimlad cadarn o gyfeiriad ar gyfer yr awdurdod.

Mae'r prif weithredwr wedi bod yn greiddiol o ran sefydlu diwylliant cadarnhaol iawn sy'n treiddio drwy strwythurau arwain a rheoli'r awdurdod. Mae'n annog y gweithlu oll i weithredu mewn modd agored a thryloyw, gan ennyn diwylliant sy'n creu cyfleoedd i swyddogion ac aelodau gynnal trafodaethau am faterion anodd a chymhleth mewn modd cadarnhaol, aeddfed a phroffesiynol.

Mae gan Arweinydd y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r amcanion a'r blaenoriaethau sydd eu hangen er mwyn ymateb i heriau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae adnabyddiaeth gref gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg ynglŷn â'u feysydd cyfrifoldeb. Mae'n rhoi cyfeiriad clir i'r gwasanaethau addysg, ac mae'n angerddol dros wella addysg o fewn y Sir. Drwy weithio gydag aelodau etholedig a Chabinet y Cyngor, maent yn gweithredu'n bwrpasol i gryfhau darpariaeth addysg, fel cynyddu'r argaeledd adnoddau ADY. Er hyn, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw rhai o amcanion yr awdurdod, fel moderneiddio ysgolion, wedi eu cyflawni'n ddigon amserol.

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant yn glir a thryloyw wrth gyfleu ei weledigaeth a'i fwriadau i grwpiau perthnasol, gan ymgynghori'n briodol â nhw. Mae'n llwyddo i fynegi ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau addysg yn effeithiol ac wedi creu diwylliant o arweinyddiaeth ystyrion ymysg ei dîm. Mae'n arweinydd strategol amlwg, sy'n gyrru'r weledigaeth gydag egni a phenderfyniad. Er enghraifft, yn synhwyrol, mae'n cydnabod y cymer amser i sefydlu gwasanaethau addysg cynaliadwy ac mae wedi datblygu cynllun addysg ar gyfer y ddegawd nesaf, gan roi ystyriaeth gadarn iawn i'r egwyddorion a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhoddir ystyriaeth dda i'r rhain yng nghynlluniau strategol y Cyngor, yn ogystal. Dros amser, mae'r adolygiad cynhwysfawr o waith y gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant wedi arwain at rannu rolau a chyfrifoldebau yn gytbwys ar draws y gwasanaeth er mwyn ymateb i anghenion trigolion, darparwyr ac anghenion cyflwyno gwasanaethau priodol.

Mae gan yr awdurdod brosesau trosolwg a chraffu effeithiol. Mae gan gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ddealltwriaeth glir ac aeddfed o rôl y pwyllgor, ac maent yn cael eu cefnogi'n effeithiol gan swyddogion ac uwch arweinwyr yr awdurdod. Mae gan gadeirydd y pwyllgor craffu trosolwg da o flaenoriaethau'r gwasanaeth ac adnabyddiaeth briodol o faterion addysg perthnasol. Mae aelodau etholedig yn chwarae rôl flaengar wrth fonitro cynnydd cynllun strategol y gwasanaeth addysg. Mae rhaglen hyfforddiant dda yn cefnogi'r trefniadau craffu er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth aelodau'r pwyllgor o'u cyfrifoldebau a'r materion i roi sylw iddynt. Mae'r rhaglen graffu wedi ei threfnu'n fwriadus, gyda chyfleoedd hyblyg i ychwanegu eitemau i graffu arnynt, yn ôl yr angen, sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau amserol a gwybodus. Mae arweinwyr a swyddogion y gwasanaeth addysg yn darparu gwybodaeth briodol sy'n caniatáu i'r aelodau etholedig wneud penderfyniadau gwybodus ar faterion cymhleth. Mae ansawdd a defnyddioldeb yr adroddiadau craffu wedi gwella dros amser a bellach maent yn fwy cynnil, perthnasol a phwrpasol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o brif gryfderau a meysydd i'w gwella o ran eu gwasanaethau addysg. Mae hyn o ganlyniad i brosesau hunanwerthuso sydd, ar y cyfan, yn drylwyr ac yn cynnwys dadansoddiad defnyddiol o ystod eang o wybodaeth ynghyd â phrosesau monitro cynnydd lled gadarn. Mae'r awdurdod yn croesawu barn rhanddeiliaid, fel penaethiaid, rhieni, plant a phobl ifanc a thrigolion, yn lled reolaidd

er mwyn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o farn pobl ynglŷn ag ansawdd eu gwaith ac er mwyn teilwra gwasanaethau i'r dyfodol. Mae cryfderau amlwg yn y modd y mae'r awdurdod yn croesawu barn disgyblion a'u cynnwys mewn penderfyniadau.

Mae gan yr awdurdod weithdrefnau clir a chadarn ar gyfer cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn datblygu cynlluniau gwelliant sy'n defnyddio'r wybodaeth a ddaw i law o'r trefniadau hunanwerthuso ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol synhwyrol. Mae'n cynnwys ystyriaeth ddoeth o adroddiadau allanol perthnasol a dyheadau cenedlaethol, fel y nod i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr awdurdod.

Mae arweinwyr yn gweithredu'n ystyrion er mwyn sicrhau aliniad clir rhwng cynlluniau gwella lefel gorfforaethol, fel y Cynllun Strategol Corfforaethol (2022-2027) a'r Cynllun yr Adran Addysg (2022-2032), hyd at gynlluniau cyfadrannol fel cynlluniau ar gyfer datblygu cwricwlwm ysgolion a lles disgyblion. Drwy hyn, hybir adnabyddiaeth gref ymysg arweinwyr a swyddogion ynglŷn â beth yw eu prif nodau ac amcanion ar gyfer gwella. Mae swyddogion, ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn glir ynglŷn â chyfeiriad yr awdurdod a'r gwasanaeth addysg.

Mae'r cynllunio ar gyfer gwelliant trefnus hwn yn sicrhau llwyddiannau amlwg o ran cryfhau'r ddarpariaeth a gwella deilliannau a lles disgyblion o fewn sawl agwedd. Er enghraifft, mae gwaith yr awdurdod yn ddiweddar i gryfhau ei gymorth o ran cefnogi ymddygiad mewn ysgolion, darparu adnodd ADY ychwanegol a sefydlu adnoddau trochi ar gyfer yr iaith Gymraeg yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r cynlluniau'n canolbwyntio'n berthnasol ar y prif feysydd i'w gwella, ond mewn rhai meysydd, fel gwella presenoldeb, nid yw'r awdurdod yn llwyddo i wireddu ei gynlluniau yn ddigon amserol. Yn ogystal, o fewn ychydig feysydd, collir cyfleoedd i osod meini prawf llwyddiant digon miniog o fewn cynlluniau, ar adegau.

Dangosodd yr awdurdod ei allu i ymateb ar fyrder i sefyllfaoedd heriol, fel eu hymateb i'r sialensiau ynghlwm â darparu gwasanaethau a chefnogaeth yn ystod cyfnod pandemig COVID-19 ac yn ystod y cyfnod adfer dilynol. Mae'r penderfyniad i deilwra ac adeiladu ar waith y grwpiau strategol a sefydlwyd bryd hynny yn esiampl gadarn o sut mae'r awdurdod wedi rhoi ar waith eu dysgu o'r profiad anodd hwnnw.

Cameo: Dull cydweithredol o drafod, herio, monitro ac arwain y gwaith o gwrdd a blaenoriaethau'r Gwasanaerth Addysg

TAI 2024-2027	newydd a thai cyngor sy'n bodoli eisoes yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn pennu ein cyllidebau cyfalaf a referiw ac yn cadarnhau lefelau rhent i denantiaid.				Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd JMorgan@carmarthenshire.gov.uk
STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL	Ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ac i gymeradwyo Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft Cyngor Sir Caerfyrddin. Ceisir cymeradwyaeth hefyd gynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus ffurfiol mewn perthynas â'r Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft yn unol â gofynion statudol.	Cabinet 11 Rhag 2023	Nac ydy	Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith Daniel John, Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol DWJohn@carmarthenshire.gov.uk
STRATEGAETH GWEITHLU 2023 - 2026	Mae ein Strategaeth Gweithlu yn disgrifio sut rydym yn bwriadu datblygu ein gweithlu presennol ac yn y dyfodol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau, yr amgylchedd, a'r gwerthoedd craidd cywir i gyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol.	Cabinet 11 Rhag 2023	Nac ydy	Trefniadaeth a'r Gweithlu	Prif Weithredwr Paul R Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) prthomas@carmarthenshire.gov.uk
STRATEGAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL I'W MLYNEDD (ÔL- Tudalen 89	Rhoi gweledigaeth i'r aelodau ar sut y byddwn yn darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y degawd nesaf. Bydd y ddogfen yn rhoi manylion am y meysydd canlynol: Cyflwyniad, Datganiad Gweledigaeth, y gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn, Modelau gofal Gwaith Cymdeithasol,	Cabinet 18 Rhag 2023	Nac ydy	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Cymunedau Silvana Sauro, Rhelwr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau ssauro@carmarthen

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
	Diogelu, Integreiddio a Phartneriaethau, Gweithlu a Chynllun Gweithredu				nshire.gov.uk
CYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD-2	<p>Mae Adran S10.7 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gyhoeddi eu strategaeth a'u cynllun rheoli perygl llifogydd lleol.</p> <p>Bydd y strategaeth a'r cynllun (y cyfeirir ato fel y cynllun rheoli perygl llifogydd, FRMP-2) yn egluro lle rydym bellach o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (FCERM), lle rydym am fod yn 2030 a sut y byddwn yn cyrraedd yno.</p>	Cabinet 19 Chwe 2024	Nac ydy	Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd	Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith Ben Kathrens, Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir BKathrens@carmarthenshire.gov.uk
RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD 2024/25 - 2028/29	Ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ynghylch y Rhaglen Gyfalaf Pum Mlynedd.	Cabinet 19 Chwe 2024	Nac ydy	Cyng. Alun Lenny, Cabinet Member	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cmoore@carmarthenshire.gov.uk
STRATEGAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 0 MLYNEDD	Rhoi gweledigaeth i'r aelodau ar sut y byddwn yn darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y degawd nesaf. Bydd y ddogfen yn	Cabinet 18 Maw 2024	Nac ydy	Cyng. Jane Tremlett, Aelod o'r Cabinet	Cyfarwyddwr Cymunedau Jake Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
	rhoi manylion am y meysydd canlynol: Cyflwyniad, Datganiad Gweledigaeth, y gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn, Modelau gofal Gwaith Cymdeithasol, Diogelu, Integreiddio a Phartneriaethau, Gweithlu a Chynllun Gweithredu				Cymunedau jakemorgan@carmarthenshire.gov.uk
POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2024/25	Er mwyn cydymffurfio ag adolygiad Cod Darbodaeth CIPFA ac adolygiad Cod Ymarfer CIPFA o ran Rheoli'r Trysorlys 2021.	Cabinet 15 Ebr 2024	Nac ydy	Cyng. Alun Lenny, Cabinet Member	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Anthony Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol AParnell@carmarthenshire.gov.uk

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwiadol

Education, Young People and the Welsh Language Scrutiny Committee Forward Plan 2023/24

AM Y CYFNOD 24 MAI 2023 TO 23 MAI 2024

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG 2022/23</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor Craffu yn ystod 2022/23 yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	23 Meh 2023	Cyng. Carys Jones	<p><i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd</i> <i>JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i></p>
<p>ADOLYGIAD ÔL-COVID O BRESENOLDEB AC YMDDYGIAD DISGYBLION (GAN GYNNWYS MEWNBWN GAN YSGOL COEDCAE)</p> <p>Sefydlu'r sefyllfa bresennol o ran bwlio a phroblemau iechyd meddwl a brofir gan bobl ifanc. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar sut mae'r Awdurdod yn cefnogi gwella ymddygiad a phresenoldeb ar draws ysgolion Sir Gaerfyrddin.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	23 Meh 2023	Cyng. Glynog Davies, Aelod y Cabinet	<p><i>Aneirin Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</i> <i>ARThomas@carmarthenshire.gov.uk</i></p>
<p>BLAENGYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG AR GYFER 2023/24</p> <p>Mae'n ofynnol yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor Sir i Bwyllgorau Craffu ddatblygu</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	23 Meh 2023	Cyng. Carys Jones	<p><i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd</i> <i>JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i></p>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
a chyhoeddi Blaengynlluniau Gwaith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried yn ystod blwyddyn y Cyngor.				
DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd mewn ymateb i benderfyniadau a wnaed.	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	23 Meh 2023	Cyng. Carys Jones	<i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd JuOwens@carmarthenshire .gov.uk</i>
EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL I ddarparu gwybodaeth gefnir ar yr eitemau sydd i'w hystyried yng nhyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ei gyfarfod nesaf.	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	23 Meh 2023	Cyng. Carys Jones	<i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd JuOwens@carmarthenshire .gov.uk</i>
ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2022/23 I ddatgan sefyllfa bresennol y gyllideb i'r Pwyllgor ar y 28ain Chwefror 2023, ynglyn â 2022/23. Bydd yr adroddiad yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried y tu allan i broses y cyfarfod, trwy ebost.	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	23 Meh 2023	Cyng. Alun Lenny, Cabinet Member	<i>Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cmoore@carmarthenshire.g ov.uk</i>
Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM GYHOEDDIADAU AC ADRODDIAD ESTYN Mae'r adroddiad yn darparu dolenni i gyhoeddiadau diweddaraf Estyn, a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i fod yn ymwybodol	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	23 Meh 2023	Addysg a'r Gymraeg	<i>Cyfarwyddwr Addysg a Phlant</i>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>datblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r Pwyllgor i'w ystyried y tu allan i broses y cyfarfod trwy e-bost.</p>				
<p>CANLYNIAD AROLYGIAD ESTYN O GYNGOR SIR CAERFYRDDIN</p> <p>Adolygu sefyllfa bresennol y Cyngor a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod trefniadau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion / meysydd i'w gwella a nodwyd.</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>9 Hyd 2023</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant edgmorgans@carmarthens hire.gov.uk</i></p>
<p>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y SEFYLLFA BRESENNOL YNGHYLCH POLISI DERBYNIADAU AR GYFER ADDYSG AMSER LLAWN I BLANT 4 OED (POLISI PLANT SY'N CODI'N 4 OED)</p> <p>Adolygu darpariaeth addysg blynnydoedd cynnar, gofal plant a chyfleoedd chwarae Sir Gaerfyrddin.</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>9 Hyd 2023</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Simon Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg sidavies@carmarthenshire. gov.uk</i></p>
<p>TROSOLWIG O'R 8 MAES BLAENORIAETH A GRWP IAU FFOCWS STRATEGOL O FEWN YR ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT, GYDA AMSERLEN O #MEYSYDD I'W HADOLYGU GAN Y Pwyllgor.</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>9 Hyd 2023</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant edgmorgans@carmarthens hire.gov.uk</i></p>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>I ddarparu trosolwg o'r 8 maes blaenoriaeth a grwpiau ffocws strategol o fewn yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant, gyda amserlen o feysydd i'w hadolygu gan y Pwyllgor.</p>				
<p>EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL</p> <p>I ddarparu gwybodaeth gefnir ar yr eitemau sydd i'w hystyried yng nhyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ei gyfarfod nesaf.</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>9 Hyd 2023</p>	<p>Cyng. Carys Jones</p>	<p><i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i></p>
<p>SEFYLLFA ALLDRO'R GYLLIDEB AR GYFER 2022/23 AR 31 MAWRTH 2023</p> <p>I ddatgan sefyllfa diwedd blwyddyn y gyllideb i'r Pwyllgor ynglyn â 2022/23. Bydd yr adroddiad yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried y tu allan i broses y cyfarfod, trwy ebost.</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>9 Hyd 2023</p>	<p>Adnoddau</p>	<p><i>Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cmoore@carmarthenshire.gov.uk</i></p>
<p>ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24</p> <p>I ddatgan sefyllfa bresennol y gyllideb i'r Pwyllgor ar y 30ain Mehefin 2023, ynglyn â 2023/24. Bydd yr adroddiad yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>9 Hyd 2023</p>	<p>Cyng. Glynog Davies, Aelod y Cabinet, Cyng. Alun Lenny, Cabinet Member</p>	<p><i>Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cmoore@carmarthenshire.gov.uk</i></p>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
hystyried y tu allan i broses y cyfarfod, trwy ebost.				
<p>Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM GYHOEDDIADAU AC ADRODDIAD ESTYN</p> <p>Mae'r adroddiad yn darparu dolenni i gyhoeddiadau diweddaraf Estyn, a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i fod yn ymwybodol datblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor i'w ystyried y tu allan i broses y cyfarfod trwy e-bost.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	9 Hyd 2023	Addysg a'r Gymraeg	<i>Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant edgmorgans@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>ADOLYGIAD O'R SEFYLLFA O RAN CYLLIDEBAU YSGOLION MEWN YSGOLION CYNRADD, UWCHRADD AC YSGOLION ARBENNIG</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth a sefyllfa'r awdurdod lleol gydag ysgolion a gynhelir yn wynebu neu'n rhagweld diffyg yn y gyllideb. Mae'n dilyn cyflwyniad blaenorol a wnaed i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	9 Hyd 2023	Addysg a'r Gymraeg	<i>Aneirin Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ARThomas@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ADOLYGIAD ESTYN O'R DDARPARIAETH CYMRAEG I OEDOLION</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	Dyddiad l'w gadarnhau	Addysg a'r Gymraeg	<i>Aeron Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr jarees@carmarthenshire.gov.uk</i>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>Adolygu sefyllfa bresennol y Cyngor a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod trefniadau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion / meysydd i'w gwella a nodwyd.</p>				
<p>DARPARIAETH Y GWASANAETH CERDD I YSGOLION</p> <p>Bydd yr adroddiad yn nodi sut y caiff y gwasanaeth cerddoriaeth ei ddarparu a'r wybodaeth ddiweddaraf am y newid o'r gwasanaeth mewnol i'r ddarpariaeth allanol. Bydd diweddariad ar yr arbedion effeithlonrwydd hefyd yn cael ei ddarparu.</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>1 Rhag 2023</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Elin Forsyth, Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion EMForsyth@carmarthenshi re.gov.uk</i></p>
<p>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RECRIWTIO A STAFFIO MEWN YSGOLION</p> <p>Bydd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar ffigurau recriwtio a staffio ysgolion, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> -ystadegau ar nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais am Dystysgrifau Ôl-raddedig ac yn eu cwblhau -nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau Tystysgrifau Ôl-raddedig trwy gyfrwng y Gymraeg -nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg <p>fffigurau recriwtio a staffio</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>1 Rhag 2023</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Aeron Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr jarees@carmarthenshire.go v.uk</i></p>
<p>ADOLYGIAD O DREFNIADAU STAFF CYFLENWI YN SIR GAERFYRDDIN</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>1 Rhag 2023</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Elin Forsyth, Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion</i></p>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
Bydd yr adroddiad yn galluogi'r Pwyllgor i adolygu cost-effeithiolrwydd y gwasanaeth allanol presennol a phenderfynu a oes lle i ddarparu gwasanaeth mewnol.				<i>EMForsyth@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR WYTH MAES BLAENORIAETH YN YR ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT</p> <p>I dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr wyth Maes Blaenoriaeth yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar un flaenoriaeth ym mhob chwarter o'r flwyddyn, gan adolygu'r amcanion a chynnig diweddariadau/newidiadau yn ôl yr angen.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	1 Rhag 2023	Addysg a'r Gymraeg	<i>Aneirin Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ARThomas@carmarthenshire.gov.uk, Jan Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd jcoles@carmarthenshire.gov.uk, Aeron Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr jarees@carmarthenshire.gov.uk, Simon Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg sidavies@carmarthenshire.gov.uk</i>
DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd mewn ymateb i benderfyniadau a wnaed.	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	1 Rhag 2023	Cyng. Carys Jones	<i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i>
PŵER I Ddarparu gwybodaeth gefnir ar yr	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	1 Rhag 2023	Cyng. Carys Jones	<i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd</i>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
eitemau sydd i'w hystyried yng nhyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ei gyfarfod nesaf.				<i>JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i>
ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24 I ddatgan sefyllfa bresennol y gyllideb i'r Pwyllgor ar 31 Awst 2023, ynglyn â 2023/24. Bydd yr adroddiad yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried y tu allan i broses y cyfarfod, trwy ebost.	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	1 Rhag 2023	Adnoddau, Yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg	<i>Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cmoore@carmarthenshire.gov.uk</i>
STRATEGAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 10 MLYNEDD Rhoi gweledigaeth i'r aelodau ar sut y byddwn yn darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y degawd nesaf. Bydd y ddogfen yn rhoi manylion am y meysydd canlynol: Cyflwyniad, Datganiad Gweledigaeth, y gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn, Modelau gofal Gwaith Cymdeithasol, Diogelu, Integreiddio a Phartneriaethau, Gweithlu a Chynllun Gweithredu	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg Cabinet	1 Rhag 2023 18 Maw 2024	Cyng. Jane Tremlett, Aelod o'r Cabinet	<i>Jake Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau jakemorgan@carmarthenshire.gov.uk</i>
Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM GYHOEDDIADAU AC ADRODDIAD ESTYN Mae'r adroddiad yn darparu dolenni i gyhoeddiadau diweddaraf Estyn, a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i fod yn ymwybodol	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	1 Rhag 2023	Addysg a'r Gymraeg	<i>Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant edgmorgans@carmarthenshire.gov.uk</i>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
datblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r Pwyllgor i'w ystyried y tu allan i broses y cyfarfod trwy e-bost.				
<p>CYNLLUNIAU DARPARU GWASANAETHAU IS-ADRANNOL</p> <p>Mae'r Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol hwn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol y bydd y gwasanaethau o fewn yr Is-adrann hon yn eu gweithredu er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i Amcanion Llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	21 Chwe 2024	Addysg a'r Gymraeg	<p><i>Aneirin Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ARThomas@carmarthenshire.gov.uk, Jan Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd jcoles@carmarthenshire.gov.uk, Simon Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg sidavies@carmarthenshire.gov.uk, Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant edgmorgans@carmarthenshire.gov.uk, Aeron Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr jarees@carmarthenshire.gov.uk</i></p>
<p>STRATEGAETH GORFFORAETHOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN (I'W GADARNHAU)</p> <p>Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, sy'n cynnwys amcanion llesiant y</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	21 Chwe 2024	Cyng. Glynog Davies, Aelod y Cabinet	<p><i>Gwyneth Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth GAyers@carmarthenshire.gov.uk</i></p>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>Cyngor, yn gosod cyfeiriad a blaenoriaethau'r sefydliad dros gyfnod y weinyddiaeth bresennol. Mae'r Strategaeth yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwireddu gweledigaeth ac ymrwymadau'r Cabinet yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd y Pwyllgor Craffu yn adolygu'r elfennau sy'n berthnasol i'w Gylch Gorchwyl.</p>				
<p>YMGYNGHORIAD STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW</p> <p>Amcan yr adroddiad yw caniatáu i aelodau ystyried strategaeth y gyllideb gorfforaethol a'r effaith gysylltiedig o ran darparu gwasanaethau a'r opsiynau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>21 Chwe 2024</p>	<p>Adnoddau</p>	<p><i>Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cmoore@carmarthenshire.gov.uk</i></p>
<p>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNNIG GOFAL PLANT YN SIR GAERFYRDDIN</p> <p>Derbyn diweddariad ar y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn unol â'i brif nodau bwriadedig i:</p> <ul style="list-style-type: none"> -galluogi mwy o rieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith -cynyddu incwm gwario'r rhai mewn gwaith a helpu i wrthweithio tlodi ar gyfer rhai mewn swyddi cyflog isel -annog datblygiad plant a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol 	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>21 Chwe 2024</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Noeline Thomas, Rheolwr Gwasanaethau NoThomas@carmarthenshire.gov.uk, Jan Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd jcoles@carmarthenshire.gov.uk</i></p>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>DIWEDDARIAD AR Y GRWPIAU FFOCWS STRATEGOL YN YR IS-ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad chwemisol ar waith y Grwpiau Ffocws Strategol o fewn yr Is-adran Addysg a Gwasanaethau Plant, gyda chyfle i'r Pwyllgor gyfrannu wrth i'r gwaith ddatblygu'n adrannol.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	21 Chwe 2024	Addysg a'r Gymraeg	<i>Aeron Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr</i> <i>jarees@carmarthenshire.gov.uk, Simon Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg</i> <i>sidavies@carmarthenshire.gov.uk, Aneirin Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</i> <i>ARThomas@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL</p> <p>I ddarparu gwybodaeth gefnir ar yr eitemau sydd i'w hystyried yng nhyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ei gyfarfod nesaf.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	21 Chwe 2024	Cyng. Carys Jones	<i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd</i> <i>JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24</p> <p>I ddatgan sefyllfa bresennol y gyllideb i'r Pwyllgor ar 31 Hydref 2023, ynglyn â 2023/24. Bydd yr adroddiad yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried y tu allan i broses y cyfarfod, trwy ebost.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	21 Chwe 2024	Cyng. Glynog Davies, Aelod y Cabinet, Cyng. Alun Lenny, Cabinet Member	<i>Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol</i> <i>cmoore@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM GYHOEDDIADAU AC ADRODDIAD</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r	21 Chwe 2024	Addysg a'r Gymraeg	<i>Gareth Morgans, Cyfarwyddwr</i>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR WYTH MAES BLAENORIAETH YN YR ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT</p> <p>I dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr wyth Maes Blaenoriaeth yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar un flaenoriaeth ym mhob chwarter o'r flwyddyn, gan adolygu'r amcanion a chynnig diweddariadau/newidiadau yn ôl yr angen.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	3 Ebr 2024	Addysg a'r Gymraeg	<i>Jan Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd jcoles@carmarthenshire.gov.uk, Aeron Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr jarees@carmarthenshire.gov.uk, Simon Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg sidavies@carmarthenshire.gov.uk, Aneirin Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ARThomas@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL</p> <p>I ddarparu gwybodaeth gefnir ar yr eitemau sydd i'w hystyried yng nhyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ei gyfarfod nesaf.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	3 Ebr 2024	Cyng. Carys Jones	<i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24</p> <p>I ddatgan sefyllfa bresennol y gyllideb i'r Pwyllgor ar 31 Rhagfyr 2023, ynglyn â 2023/24. Bydd yr adroddiad yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried y tu allan i broses y cyfarfod, trwy ebost.</p>	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	3 Ebr 2024	Cyng. Glynog Davies, Aelod y Cabinet, Cyng. Alun Lenny, Cabinet Member	<i>Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cmoore@carmarthenshire.gov.uk</i>
<p>NEWYDDION DIWEDDARAF AM</p>	Pwyllgor Craffu	3 Ebr 2024	Addysg a'r Gymraeg	<i>Gareth Morgans,</i>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>GYHOEDDIADAU AC ADRODDIAD ESTYN</p> <p>Mae'r adroddiad yn darparu dolenni i gyhoeddiadau diweddaraf Estyn, a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i fod yn ymwybodol datblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r Pwyllgor i'w ystyried y tu allan i broses y cyfarfod trwy e-bost.</p>	<p>Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>			<p><i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant edgmorgans@carmarthenshire.gov.uk</i></p>
<p>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WAITH CYNGOR IEUENCTID SIR GAERFYRDDIN</p> <p>Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn unol â'r pedwar prif faes cynrychiolaeth sy'n ymwneud â:</p> <p>Addysg Cyffredinol Diddordeb Arbennig</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>17 Mai 2024</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Sarah Powell, Young People's Participation Co-ordinator SJPowell@carmarthenshire.gov.uk, Gill Adams, Prif Rheolwr Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid GMAAdams@sirgar.gov.uk, Aeron Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr jarees@carmarthenshire.gov.uk</i></p>
<p>DIWEDDARIAD AR Y GRWPIAU FFOCWS STRATEGOL YN YR IS-ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad chwemisol ar waith y Grwpiau Ffocws Strategol o fewn yr Is-adran Addysg a Gwasanaethau Plant, gyda chyfle i'r</p>	<p>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg</p>	<p>17 Mai 2024</p>	<p>Addysg a'r Gymraeg</p>	<p><i>Aneirin Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ARThomas@carmarthenshire.gov.uk, Simon Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg sidavies@carmarthenshire.gov.uk, Aeron Rees,</i></p>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
Pwyllgor gyfrannu wrth i'r gwaith ddatblygu'n adrannol.				<i>Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr jarees@carmarthenshire.gov.uk, Jan Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd jcoles@carmarthenshire.gov.uk</i>
DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd mewn ymateb i benderfyniadau a wnaed.	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	17 Mai 2024	Cyng. Carys Jones	<i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i>
EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL I ddarparu gwybodaeth gefnir ar yr eitemau sydd i'w hystyried yng nhyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ei gyfarfod nesaf.	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	17 Mai 2024	Cyng. Carys Jones	<i>Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd JuOwens@carmarthenshire.gov.uk</i>
ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24 I ddatgan sefyllfa bresennol y gyllideb i'r Pwyllgor ar 28 Chwefror 2024, ynglyn â 2023/24. Bydd yr adroddiad yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried y tu allan i broses y cyfarfod, trwy ebost.	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	17 Mai 2024	Cyng. Glynog Davies, Aelod y Cabinet, Cyng. Alun Lenny, Cabinet Member	<i>Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cmoore@carmarthenshire.gov.uk</i>
NEWYDDION DIWEDDARAF AM GYHOEDDIADAU AC ADRODDIAD YSTYNYD	Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	17 Mai 2024	Addysg a'r Gymraeg	<i>Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant</i>

Pwnc / Penderfyniad	Penderfynwr	Dyddiad penderfyniad	Aelod Arweinol	Y Swyddog Arweinol
<p>Mae'r adroddiad yn darparu dolenni i gyhoeddiadau diweddaraf Estyn, a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i fod yn ymwybodol datblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor i'w ystyried y tu allan i broses y cyfarfod trwy e-bost.</p>				<p><i>edgmorgans@carmarthenshire.gov.uk</i></p>

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K.V. Broom, L. Davies ac S. Rees.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Yr Aelod	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd M. J. A. Lewis	4. Cefnogi Ymddygiad	Mae perthynas agos yn gweithio fel Seicolegydd yn yr Adran Addysg.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. CYNNAL YMDDYGIAD

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â chefnogi gwell ymddygiad ar draws ysgolion y sir.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod yr adolygiad o ymddygiad a gynhaliwyd ym mhob ysgol wedi arwain at ddatblygu Model Pedwar Cam o Gymorth Ymddygiad a Llesiant Emosiynol er mwyn darparu gwasanaethau cymorth ymddygiad teg a chyson ledled y sir. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg fod y tîm canolog yn yr Awdurdod Lleol wedi cael ei gryfhau a bod £500k o gyllid wedi'i roi i ysgolion uwchradd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Model Pedwar Cam a oedd yn cynnwys gwella sgiliau ysgolion a staff i ddiwallu anghenion dysgwyr, darparu cymorth 'yn yr ysgol' i staff a dysgwyr, cymorth arbenigol o ran Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol mewn perthynas ag Addysg Heblaw yn yr Ysgol a darparu cymorth pwrpasol i rai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn yr Awdurdod Lleol.

Ar hynny, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad manwl gan Bennaeth Ysgol Gyfun Coedcae a oedd yn canolbwyntio ar y ffordd yr oedd yr ysgol wedi creu diwylliant o ddiogelu a oedd yn darparu cymorth pwrpasol ac effeithiol iawn i sicrhau llesiant disgyblion ac i ddiwallu anghenion y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Daeth arolygiad diweddar gan Estyn i'r casgliad bod safon y gofal, y cymorth a'r arweiniad i ddisgyblion yn rhagorol. Cafodd y Pwyllgor drosolwg o'r data cyd-destunol ynghylch proffil disgyblion sy'n mynychu'r ysgol a chydabu'r gydberthynas rhwng y procsi ar gyfer amddifadedd â deilliannau addysgol, absenoldeb a safonau ymddygiad. Roedd yr ymyriadau a'r mentrau a wnaed gan yr ysgol wedi arwain at werth ychwanegol cadarnhaol lle roedd disgyblion agored i niwed wedi rhagori ar lefelau cenedlaethol disgwyliedig cynnydd, safonau a deilliannau addysgol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Er gwaethaf yr amrywiaeth o fesurau ymyrraeth a roddwyd ar waith gan yr ysgol, cydnabu'r Pwyllgor effaith anfantais tloedi ar fynediad disgyblion i'r ysgol. Yn hyn o beth, darparwyd crynodeb o'r strategaethau i wella ymddygiad a phresenoldeb i'r Pwyllgor, ynghyd ag amlinelliad o'r mesurau a chymorth yr Awdurdod Lleol a fyddai'n cynorthwyo'r ysgol yn yr ymdrechion hyn.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

- Mewn ymateb i ymholiad, rhoddodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion drosolwg o ddarpariaeth y Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad a oedd wedi'i hailgynllunio'n ddiweddar i adlewyrchu'r galw cynyddol gan ysgolion am ddarparu cymorth adweithiol a rhagweithiol.
 - O ran Ysgol Coedcae, cyfeiriwyd at y cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a wnaed gan athrawon am gymorth ar alwad ar gyfer ymddygiad yn ystod gwersi, yn enwedig i ddisgyblion blwyddyn 11. Esboniwyd i'r Pwyllgor fod materion ymddygiad a phresenoldeb wedi dod i'r amlwg ymhlith disgyblion blwyddyn 11 yr oedd ganddynt y pwysau a'r pryderon ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gofyniad i wneud yn dda mewn arholiadau, yn ogystal â'r tarfu addysgol a achoswyd gan y pandemig; ac roedd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn genedlaethol. Hefyd dywedwyd ei bod yn ymddangos nad oedd cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol yn cyd-fynd â nifer yr achosion o gymorth ar alwad ar gyfer materion ymddygiad oherwydd bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn yr ysgol, gan gynnwys y cyfleuster mewnol i gynnwys y disgyblion o'r newydd.
 - Yn dilyn ymholiad am y cymorth sydd ar gael i staff, rhoddodd Pennaeth Ysgol Coedcae sicrwydd i'r Pwyllgor fod effaith llesiant staff yn ffocws allweddol i Dîm Uwch-arweinwyr yr ysgol, drwy ddarparu sianeli cyfathrebu effeithiol ac agored a gweithredu strategaethau megis sgysiau adferol i feithrin perthynas gadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion.
 - Pwysleisiodd aelod bwysigrwydd cael strwythurau gwell ar gyfer ymyrraeth gynnar i wella safonau ymddygiad a deilliannau addysgol disgwylidig cysylltiedig disgyblion cyn iddynt ddechrau addysg ysgol uwchradd. Eglurodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion fod y gwasanaethau Cymorth Ymddygiad yn gweithio ar draws y sector cynradd ac uwchradd i ddarparu rhaglenni cymorth i ddysgwyr gan ddefnyddio ethos arferion cynhwysol, gyda dulliau adferol i annog perthynas gadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion a hefyd rhwng athrawon, rhieni/gwarcheidwaid a chymunedau. Hefyd, eglurwyd bod Ymarfer Ymwybodol o Drawma ynghylch ymddygiad niwroamrywiol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y dulliau priodol yn cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol.
 - Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyflwyno'r Model Pedwar Cam ar draws y sir, rhoddodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion drosolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo
- Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

gydag ysgolion i wella sgiliau staff i ddelio ag ymddygiad heriol disgyblion, darparu dulliau wedi'u targedu o ymdrin â meysydd angen a defnyddio lleoliadau arbenigol fel dull ymyrryd.

- Canmolwyd Pennaeth Ysgol Gyfun Coedcae a'i staff am y gwaith calonogol a chadarnhaol a oedd yn cael ei wneud a roddodd gipolwg i'r Pwyllgor ynghylch pa mor gyffredin oedd problemau ymddygiad ar draws ysgolion.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

5. LEFELAU PRESENOLDEB YSGOLION

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi lefelau presenoldeb ar draws ysgolion Sir Gaerfyrddin ers 2012. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg at effaith andwyol sylweddol y pandemig coronafeirws ar bresenoldeb ysgolion, gan nodi bod ysgolion wedi cael anhawster i ailymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd. Dywedwyd bod presenoldeb ar draws ysgolion Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig, ac mai salwch oedd y rheswm dros y rhan fwyaf o'r absenoldebau, er y nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi aildechrau cyhoeddi data a mesur perfformiad yn llawn eto yn dilyn y pandemig coronafeirws.

Roedd yr adroddiad yn nodi cymorth yr Awdurdod Lleol a roddir i ysgolion i wella a chynnal presenoldeb da disgyblion drwy waith ymgynghorol a gweithredol, a chafodd ei ategu gan ddata ystadegol i ddangos effaith ymyriadau o'r fath.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

- Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Rheolwr y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion i'r Pwyllgor fod 'Ymgyrch Cwmpasu' yn fenter partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu i roi gwybod i ysgolion am ddigwyddiadau trais domestig mewn achosion lle roedd disgyblion yn gysylltiedig â'r cyfeiriad hwnnw. Y nod oedd sicrhau bod cymorth emosiynol a/neu ymarferol yn cael ei ddarparu yn yr ysgol i'r disgyblion yr effeithiwyd arnynt, yn ôl yr angen. Eglurwyd ymhellach fod 'Ymgyrch Cwmpasu' yn fenter partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu i ddiogelu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed rhag mynd ar goll.
- Dywedwyd bod rhai disgyblion wedi ffynnu yn academiaidd drwy'r dysgu ar-lein a ddarparwyd yn ystod y pandemig coronafeirws oherwydd yr hyblygrwydd a gynigiwyd. Yn unol â hynny, cafodd rhai disgyblion anawsterau wrth ailgydio yn y drefn ddyddiol a ddisgwylir mewn lleoliadau ysgol traddodiadol. Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion fod heriau'r blynyddoedd diweddar wedi arwain at ddatblygu amrywiaeth o gynigion amgen i gynnwys o'r newydd y rhai a gafodd anawsterau o'r fath, gan gynnwys cynlluniau addysgol pwrpasol ar gyfer y rhai sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac ymyriadau megis gwasanaethau cymorth bugeiliol i'r rhai mewn addysg brif ffrwd.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Mewn ymateb i ymholiad am yr amcanestyniad tymor hwy ar gyfer lefelau presenoldeb, cyfeiriodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion at brosiect EBSA (osgoi'r ysgol ar sail emosiwn) sydd newydd gael ei dreialu gyda'r nod o nodi rhesymau dros ymddieithrio er mwyn darparu strategaethau a chymorth i gynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i amgylchedd yr ysgol neu nodi pecyn cymorth priodol i'r rhai nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn addysg brif ffrwd.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y gydberthynas rhwng rhieni/gwarcheidwaid yn gweithio gartref ac absenoldeb, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant at dystiolaeth anecdotaidd o broblemau yn ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol mewn achosion lle roedd rhieni/gwarcheidwaid yn gweithio gartref. Amlygodd Aelod bwysigrwydd ymchwilio i'r maes hwn.
- Amlygwyd pwysigrwydd rôl Swyddogion Presenoldeb a Llesiant gan aelod o ran pwysleisio effaith absenoldeb i rieni a gwarcheidwaid. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant at ymgyrchoedd marchnata ynghylch ymddygiad a phresenoldeb gan yr Awdurdod Lleol i gyfleu pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol i rieni a gwarcheidwaid.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch casglu ffigurau absenoldeb, eglurodd y Rheolwr Trawsnewid Ysgolion fod cyfres o 23 o godau wedi cael eu defnyddio'n gyson ym mhob ysgol i gofnodi rhesymau dros absenoldeb. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y byddai proffil ysgolion o ran niferoedd disgyblion, eu cyd-destun a'r effaith ganlyniadol ar ganrannau presenoldeb, yn cael eu hystyried wrth ddadansoddi gwybodaeth ystadegol o'r fath.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

6. CYNLLUNIO STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i'w ystyried a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 wrth weithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 10 mlynedd (2022-2032) yr Awdurdod.

Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol sydd wedi'u hymgorffori yn Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod weithredu a monitro Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gynyddu addysg ddwyieithog mewn ysgolion ledled y sir.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cynllun gweithredu a atodwyd i'r adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r 7 canlyniad a nodwyd yn y Cynllun i hwyluso dysgu mwy o blant meithrin a derbyn trwy gyfrwng y Gymraeg; mwy o

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

bobl ifanc yn astudio ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol; a chynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwynwyd crynodeb o'r gwaith parhaus i drosglwyddo ysgolion i system categoreiddio ieithyddol newydd Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad hefyd, ynghyd â throsolwg o'r sefyllfa bresennol o ran Tîm Datblygu'r Gymraeg, Safonau, gweithio mewn partneriaeth, cyllid grant a datblygiadau yn y dyfodol.

Rhodddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at Gyfrifiad 2021 gan fynegi pryderon ynghylch nifer isel yr athrawon sy'n gallu cyflwyno dosbarthiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â hynny, cafwyd ymholiadau ynghylch y mentrau a weithredwyd i gyflawni'r amcan o gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a rôl asiantaethau allanol yn hyn o beth. Cyfeiriodd y Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr at yr anawsterau cenedlaethol parhaus i recriwtio ymgeiswyr i swyddi addysgu yn gyffredinol a'r angen i hyrwyddo addysgu fel gyrfa o ddewis. Cyfeiriwyd hefyd at y Ganolfan Genedlaethol a fyddai'n archwilio gwelliannau i'r ddarpariaeth Gymraeg i ysgolion yn unol â chyflwyno Bil Addysg y Gymraeg sydd ar ddod. Dywedwyd bod rhaglen gymorth hefyd ar waith i athrawon ddysgu, gwella neu wella eu hyder yn y maes hwn. Cyfeiriodd Rheolwr Datblygu'r Gymraeg hefyd at yr amrywiaeth o lefelau hyfforddi a hyblygrwydd o ran cyrsiau i hwyluso mynediad at ddysgu i athrawon, a fyddai'n cael ei wella ymhellach yn y dyfodol yn dilyn darparu cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.
- Mewn ymateb i ymholiad, cydnabuwyd yr heriau recriwtio ar gyfer y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion gan y Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr a rhodddwyd sicrwydd bod gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo a llenwi'r rolau hyn i ateb y galw am ddosbarthiadau Cymraeg yn y cymunedau. Yn hyn o beth, cadarnhawyd y byddai adroddiad ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn unol â'i Flaengynllun Gwaith ar gyfer 2023/24.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar athrawon, eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant wrth y Pwyllgor y byddai'r fanyleb swydd yn bwrpasol i'r rôl y gwneir cais amdani. Roedd rhaglen gymorth hefyd yn cael ei chynnig gan ysgolion i sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol yn cael eu hennill.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG 2022/23

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg a oedd yn rhoi manylion am y gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor ac roedd yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a'r materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen, sesiynau datblygu a phresenoldeb aelodau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.

8. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

9. BLAENGYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG AR GYFER 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn adolygu ei Flaengynllun Gwaith drafft ar gyfer 2023/24, a ddatblygwyd yn dilyn sesiwn cynllunio anffurfiol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Mai 2023. Pwysleisiwyd bod y Blaengynllun Gwaith yn ddogfen hyblyg y gellid ei diweddarau trwy gydol y flwyddyn yn ôl y gofyn.

CYTUNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ar gyfer 2023/24.

10. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Adolygodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf i'w gynnal ar 9 Hydref 2023, a oedd wedi deillio o Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor am 2023/24.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg.

11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5 MAI 2023

Yn amodol ar newid teipograffyddol ar y rhestr o'r sawl oedd yn bresennol ar fersiwn Cymraeg y cofnodion mewn perthynas â'r Cynghorydd G. John, PENDERFYNWYD bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Mai 2023 yn cael eu llofnodi gan eu bod yn gywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf